# Llais Bro Aled

**Dydd Sul, 1 Hydref 2023**

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

**Rwyt ti'n cyfrif!**

Mae llawer o bobl yn tybio nad ydi Duw yn malio dim amdanon ni. Ond darlun gwahanol iawn a gawn o Dduw yn y Beibl ac yn nhystiolaeth ei ddilynwyr. Dweud bod Duw yn malio wnaeth Iesu Grist, dweud ein bod yn werthfawr yn ei olwg. "Oni werthir dau aderyn y to am geiniog? Eto nid oes un ohonynt yn syrthio i'r ddaear heb eich Tad. Amdanoch chwi, y mae hyd yn oed pob blewyn o wallt eich pen wedi ei rifo. Peidiwch ag ofni felly; yr ydych chwi'n werth mwy na llawer o adar y to." "Pwy bynnag fydd yn fy arddel i gerbron eraill, byddaf finnau hefyd yn eu harddel hwy gerbron fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd." (Mathew 10:29-32)

Er mai aderyn digon cyffredin a dinod ydi aderyn y to, mae'r Arglwydd Iesu yn datgan fod gan Dduw ddiddordeb ynddo. Ond rydym ni fel pobl yn werth llawer mwy gan yr Arglwydd. Ffordd yr Arglwydd Iesu o bwysleisio hyn ydi cyfeirio at y ffaith fod ein Tad nefol wedi rhifo'r gwallt sydd ar ein pen. Mae Duw'r nefoedd am i ni wybod bod ei ofal amdanom y tu hwnt i be' y gallwn ei fesur. Mae'n dweud ei fod eisiau ein harddel fel ei bobl. Cawn ef yn Iesu Grist yn un sy'n dod i'r byd i chwilio am y rhai sydd wedi crwydro ymhell oddi wrtho. "Daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig." (Luc 19:10) Mae ei allu a'i nerth mawr wedi ei amlygu yn ei weithredoedd yr adroddir amdanynt yn y Beibl ac yn nhystiolaeth y rhai sydd wedi ei arddel dros y canrifoedd. Duw sy'n tywallt bendithion arnom ydy o, bendithion daearol a bendithion ysbrydol. Fel hyn mae'r Salmydd yn dweud, "Da yw moliannu'r Arglwydd, a chanu mawl i'th enw di, y Goruchaf, a chyhoeddi dy gariad yn y bore a'th ffyddlondeb bob nos..." (Salm 92:1). "Dewch i mewn i'w byrth a diolch ac i'w gynteddau a mawl. Diolchwch iddo, bendithiwch ei enw. Oherwydd da yw'r Arglwydd; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth." (Salm 100:4-5)

A hithau'n fis yr ŵyl ddiolchgarwch draddodiadol gadewch i ni ystyried bendithion Duw i ni a dathlu ei ofal mawr drosom.

*Y Parch. R. O. Roberts*

## Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☏ 01745 870632 07900 627536

***Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (11eg), os gwelwch yn dda.***

## Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Linda Davies (Saron) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei thad, Mr Bill Armstrong. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan weddïo y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu yn eu galar a'u hiraeth amdano.

Cofiwn yn ein gweddïau hefyd am Emlyn Davies (Llansannan) sy'n cael gofal yn San Cyndeyrn, Eurgain Pierce (Llannefydd) yn Ysbyty Glan Clwyd, Trebor Roberts (Llansannan) yn Ysbyty Maelor, Richard M. Jones (Cefn Berain) yn Ysbyty Rhuthun, a Merfyn Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Clatterbridge. Treuliodd Eifion M. Jones (Llansannan) rai dyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd ond mae'n dda cael adrodd ei fod bellach adref o'r ysbyty ac yn gwella yn dilyn ei lawdriniaeth. Mae eraill wedi bod yn cael gofal mewn ysbytai hefyd – cofiwn amdanynt hwythau hefyd. Cyflwynwn y cleifion oll i ofal Duw a gweddïwn eu bod yn adnabod Ei ddaioni yn eu hamgylchynu.

Llongyfarchiadau i Carwyn Lloyd Evans (Llansannan) a Gwawr ar enedigaeth mab – Harri Tomos. Llongyfarchiadau hefyd i Gwion Lloyd Evans (Llansannan) ac Elain ar enedigaeth merch – Jini Gwen, chwaer fach i Cati ac Enoc. Dymunwn yn dda i'r ddau deulu a diolchwn i Dduw am ei ddaioni tuag atynt.

## Newyddion da!

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi fod y Parch. John Pritchard, Llanberis wedi datgan ei barodrwydd i'n cynorthwyo dros y cyfnod hwn tra byddwn yn ceisio cael gweinidog i'r Ofalaeth. Golyga hynny y bydd yn pregethu yn yr Ofalaeth unwaith y mis, a'i fod hefyd yn fodlon arwain gwasanaethau eraill megis oedfaon bedydd, priodasau ac angladdau os bydd angen ac os na fydd gan y teuluoedd hynny rywun arall y byddent yn dymuno cael eu gwasanaeth. Bydd John (a'r Parch. Robert O. Roberts, ac eraill o bosib) yn parhau i baratoi myfyrdod yn eu tro ar gyfer Llais Bro Aled a diolchwn i'r ddau am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r cylchlythyr ers dechrau mis Mai pan ddaeth yr Ofalaeth yn ddi-weinidog.

Mae John wedi ymddeol fel gweinidog llawn amser ers diwedd mis Awst eleni, ac felly, tra ein bod yn dymuno'n dda iawn iddo yn ei ymddeoliad, rydym hefyd yn diolch iddo yn ddiffuant iawn am ei barodrwydd i'n helpu dros y cyfnod hwn. Wrth gwrs, mae gan John gysylltiadau teuluol agos iawn â Llannefydd, ac mae'n gyfarwydd iawn i nifer ohonom yn yr Ofalaeth. Mae hefyd yn fawr ei barch gan bawb sy'n ei adnabod. Er y bydd yn parhau i fyw yn Llanberis, rwy'n siŵr y byddwn yn ei groesawu'n gynnes iawn i'n plith bob tro y cawn ei wasanaeth.

Pwysleisiwn mai NID gweinidog rhan amser i'r Ofalaeth fydd John, ond ei fod wedi cynnig ein helpu dros y cyfnod hwn tra byddwn yn parhau i geisio cael gweinidog. Diolchwn i Dduw amdano ac am bawb arall sydd hefyd yn ein cefnogi mewn amrywiol ffyrdd dros y cyfnod hwn.

# Cyhoeddiadau'r Fro

## Dydd Sul, Hydref 1af

- **Oedfa i'r Daith (Llansannan, Llanfair a Chefn Meiriadog) yng Nghapel Cefn Meiriadog** am 10:30 o dan arweiniad Mr Dafydd Murphy.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10:15.
- **Oedfa i'r Daith (Nantglyn a Saron) yn Saron** *(sylwch ar y newid lleoliad)* am 2:00 y pnawn o dan arweiniad y Parch. Trefor Lewis.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 (a phob prynhawn Sul arall).

## Dydd Llun, Hydref 2il

- **Grŵp Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Ifanc** yn cyfarfod yn Festri Capel Cefn Meiriadog am 7:30 yr hwyr i drafod sut i ddatblygu'r gwaith o fewn yr Ofalaeth. Os oes unrhyw un arall â diddordeb i ymuno, croeso i chi ddod i'r cyfarfod.

## Dydd Mawrth, Hydref 3ydd

- **Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan** am 1:30 y pnawn. Edrychwn ymlaen i gael cwmni Eleri Roberts o'r RNLI. Croeso cynnes i bawb.
- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Dinbych a Fflint** yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7:00 yr hwyr pryd y bydd Mr John Davies yn hyrwyddo Apêl yr Undeb 2023-24 – 'Ffynhonnau Byw'. Ffocws yr apêl fydd gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol yn Colombia, gan gefnogi ymdrech pobl dros gyfiawnder. Croeso cynnes i bawb.

## Dydd Iau, Hydref 5ed

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn o dan ofal Sion Morris (Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Cymru), gyda chefnogaeth un o weithwyr Coleg y Bala, Anti Olwen a chyfeillion eraill. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Y Tabernacl, Rhuthun am 6:30 yr hwyr, ac yna fe weinyddir y cymun gan y Parch. Aneurin Owen.

## Dydd Gwener, Hydref 6ed

- **Paned a Sgwrs** yng Nghapel Llannefydd am 10:00. Edrychir ymlaen i gael cwmni Dr Mari Lloyd Williams hefyd. Croeso cynnes i bawb.
- **Oedfa Diolchgarwch Capel Saron** am 7:00 yr hwyr gyda'r Parch. Morris P. Morris yn pregethu.

## Dydd Sul, Hydref 8fed

- **Oedfa Gymun yn Llanfair** am 9:30 ac **Oedfa Gymun yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch Capel Llannefydd** (a bydd aelodau Capel Cefn Berain hefyd yn ymuno) am 11:00, a chinio a phwdin i ddilyn. Y siaradwr gwadd fydd Dr Mari Ll. Williams. Enwau i Mair B. Williams erbyn dydd Sul (1af), os gwelwch yn dda.
- **Oedfa Thema yn Henllan** am 9:30. Fe dderbynnir nwyddau i'r Banc Bwyd ar gyfer Diolchgarwch hefyd, os gwelwch yn dda.

## Dydd Llun, Hydref 9fed

- **Cyfarfod Plant Ysgol Pantpastynog** o 3:00-4:00 o dan ofal tîm Bro Dinbych.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch Henllan** am 2:00 y pnawn yng nghwmni plant Ysgol Henllan a bydd Mrs Sian Alwen Jones, Prifathrawes Ysgol Glan Clwyd yn rhoi sgwrs i'r plant a'r oedolion. Bydd oedfa am 7:00 yr hwyr gyda'r Parch. Huw Powell Davies yn pregethu. Fe wneir casgliad arbennig tuag at Hosbis San Cyndeyrn yn ystod y ddau wasanaeth. Croeso cynnes i bawb.
- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Doethineb i'r Dydd' am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. *(Manylion mewngofnodi:* https://us02web.zoom.us/j/82697406470?pwd=aThkK0hEUlFKTXF0MU8zL00zV1FDZz09 neu deialwch 01314 601196 i ymuno ar y ffôn. *Meeting ID:* 826 9740 6470 *Passcode*: 901953*)* Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

## Dydd Mawrth, Hydref 10fed

- **Cinio Jangl yn Festri Llansannan** am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghapel Cefn Berain am 7:30 yr hwyr. Croeso i bawb.

## Dydd Iau, Hydref 12fed

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30.

## Dydd Sadwrn, Hydref 14eg

- **Encil yr Hydref, y Weinidogaeth Iachâu** yng Nghapel Jerwsalem, Cerrigydrudion. Byddwn yn ymgynnull am 10:00 ac yn gorffen am 3:00 y pnawn. Dewch â byrbryd.

## Dydd Sul, Hydref 15fed

- **Oedfa Diolchgarwch yn Llansannan** am 9:30 ac Ysgol Sul y plant yn cydredeg. Gwerthfawrogir cyfraniadau tuag at y Banc Bwyd, os gwelwch yn dda. Bydd **Oedfa hefyd yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 – y ddwy oedfa o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones. Bydd Ysgol Sul yn Groes yn dilyn yr oedfa.